

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

127 - Rheoliadau Georwystro (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2019

Gosodwyd yn Senedd y DU: 14 Mawrth 2019

Sifftio

A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Na fydd
Gweithdrefn:	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Amh.
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Ddim yn hysbys
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amh.
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 27
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Ddim yn ofynnol

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Amh.
Y weithdrefn	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Ddim yn hysbys

Sylwadau

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Defnyddir y term "georwystro" i ddisgrifio'r sefyllfa ble mae masnachwyr yn gwahaniaethu yn erbyn cwsmeriaid ar sail cenedligrwydd neu leoliad y cwsmer, er enghraifft drwy ail-gyfeirio cwsmeriaid yn awtomatig i fersiynau gwlad-benodol o'u gwefan, gyda thelerau ac amodau gwahanol. Bydd y Rheoliadau hyn yn dirymu fersiwn "cyfraith yr UE a ddargedwir" o Reoliad (UE) 2018/302 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 28 Chwefror 2018 ar fynd i'r afael ag achosion na ellir eu cyfiawnhau o georwystro ac â mathau eraill o wahaniaethu ar sail cenedligrwydd neu fan preswyllo cwsmeriaid neu ar sail lleoliad eu sefydliad o fewn y farchnad fewnol ac yn diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 2006/2004 ac (UE) 2017/2394 a Chyfarwyddeb 2009/22/EC (y "Rheoliad Georwystro").

Mae'r Rheoliad Georwystro yn gwahardd mathau penodol o georwystro. Mae hyn yn cynnwys mandadu mynediad i bob fersiwn o wefan yn yr UE, sicrhau nad oes gwahaniaethu rhwng cwsmeriaid yr UE wrth siopa o bell, a sicrhau nad oes gwahaniaethu o ran y telerau talu a dderbynnir.

Os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb, byddai'r Rheoliad Georwystro yn colli elfennau pwysig o ddwyochredd sy'n angenrheidiol er mwyn iddo weithredu'n effeithiol yn y DU. Os na chaiff y Rheoliad Georwystro ei ddirymu, byddai masnachwyr y DU yn parhau i fod â rhwymedigaethau i gwsmeriaid yr UE o dan y Rheoliad, tra byddai cwsmeriaid y DU yn annhebygol o dderbyn unrhyw un o'i fuddion. Er mwyn osgoi'r anghydraddoldeb mewn rhwymedigaethau gorfodi o blaid yr UE, mae'r Rheoliad Georwystro i gael ei ddirymu yn y DU.

Bydd y Rheoliadau hyn hefyd yn dirymu Rheoliadau Georwystro (Gorfodi) 2018, sydd ar hyn o bryd yn caniatáu i gwsmeriaid ddilyn hawliadau sy'n deillio o'r Rheoliad Georwystro yn uniongyrchol yn erbyn masnachwyr. Gan fod y Rheoliad Georwystro yn cael ei ddirymu, ni fydd y ddarpariaeth hon bellach yn briodol ac felly caiff ei dirymu hefyd.

Mae'r dirymiadau hyn yn cael eu gwneud er mwyn mynd i'r afael â diffygion sy'n codi o ganlyniad i'r DU yn ymadael â'r UE.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 29 Mawrth 2019 (a osodwyd ar 20 Mawrth 2019) ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.